

## Tasg 3

## (Heriol, sbardun 1)

Edrychwch eto ar y geiriau hyn: brenhiniaeth, democratiaeth, gweriniaeth. Maen nhw i gyd yn gorffen ag **-aeth**. Fel arfer, mae'r geiriau hyn a geiriau **(-aeth)** i gyd yn **fenywaidd**. OND, mae **gwasanaeth** yn **wrywaidd** – y gwasanaeth hwn.

Mae hyn yn golygu:

- eu bod nhw'n treiglo'n **feddal** ar ôl **y** (cofiwch, dydy **ll** a **rh** ddim yn treiglo ar ôl **y**)
- bod **ansoddair** yn treiglo'n **feddal** ar eu hôl nhw.

Rhy gymhleth? Llenwch y tabl hwn gan ddilyn yr enghraifft. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall pob gair yn gyntaf.

Enw sy'n gorffen â -(i)aeth	Ar ôl 'y'	Rhoi ansoddair ar ôl yr enw
brenhiniaeth	y frenhiniaeth	(da) brenhiniaeth <b>dda</b>
gweriniaeth	y	(cadarn)
democratiaeth	y	(cyfoes)
barddoniaeth	y	(trawiadol)
cefnogaeth	y	(parod)
rheolaeth	y	(llac)
ystyriaeth	yr	(pwysig)
gwybodaeth	y	(trylwyr)
trafnidiaeth	y	(cyhoeddus)
ysbrydoliaeth	yr	(llachar)